

Polisi Gwirfoddolwyr

Nod

Galluogi'r Cylch Meithrin i fanteisio ar gyfraniad oedolion addas i gyfoethogi ac ymestyn profiadau y plant sydd yn ein gofal. Gall hyn hefyd cynnwys gwirfoddolwyr o dro i dro i helpu gyda staff ar salwch neu ar gwrs.

Amcanion

1. Sicrhau bod pawb yn deall pwysigrwydd eu cyfraniad ond eu bod yn atebol i'r arweinydd ac mai hi sydd yn gyfrifol am bob penderfyniad yn y pen draw.
2. Sicrhau mwy o sylw unigol i'r plant e.e. wrth ddarllen.
3. Mae'n bwysig datblygu dealltwriaeth o'r ffyrdd y mae'r Cylch Meithrin yn gweithio, trefn disgyblu a.y.y.b.

1. Bydd Person Cofrestredig/Arweinydd yn penderfynu pa mor aml a pha mor hir y daw y gwirfoddolwyr
2. Bydd Person Cofrestredig/Arweinydd yn gwirio os fydd yr unigolyn yn addas, gellid gofyn am eirida os byddant yn teimlo fod angen
3. Nid oes angen archwilio pobl a fydd yn dod i gysylltiad afreolaidd yn unig â phlant am gyfnodau byr
4. Dylir y Person Cofrestredig/Arweinydd egluro yn union beth fydd yn ofynnol o'r gwirfoddolwr

Canllawiau

- Bydd y gwirfoddolwyr yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd am ddim. Disgwylir i staff y Cylch Meithrin a phlant fod yn ymwybodol o hyn, a thrin ymwelwyr gyda pharch a chwarteisi.
- Bydd Arweinydd y Cylch yn egluro trefn y sesiwn, gan gynnwys canllawiau iechyd a diogelwch megis dril tan, cymorth cyntaf ac yn gosod tasgau penodol e.e darllen/chwarae gyda'r plant, helpu plentyn penodol â gweithgaredd
- Cynorthwyo yn unig fydd swydd y gwirfoddolwyr o fewn y dosbarth i gwrandao ar blant yn darllen a chwarae a dim arwain a.y.y.b. onibai bod amgylchiadau arbennig.
- Byddwn yn ceisio sicrhau fod ein gwirfoddolwyr yn ddwyieithog gan amlaf, yn enwedig os ydynt i fod yn rhai tymor-hir.
- Anogir pob gwirfoddolwr i dod yn gyfarwydd â threfn a rheolau disgyblaeth, safon iaith, dangos parch at blant a.y.y.b.
- Os bydd gwirfoddolwr newydd yn bwriadu bod yn y Cylch yn rheolaidd yn y tymor hir, mae'n bosibl sicrhau gwiriad heddlu iddynt, ond nid yw'n angenrheidiol.
- Dylid y gwirfoddolwr arwyddo'r llyfryn ymwelwyr
- Dylid drin a phob mater sydd yn ymwleud â'r Cylch yn hollol gyfrinachol
- Petai plentyn yn datgelu unrhyw beth yn ymwneud âg amddiffyn plant yna dylid adrodd wrth yr arweinydd a pheidio a gofyn unrhyw gwestiynau
- Nid ddylir y gwirfoddolwr ddisgyblu unrhyw blentyn



Ni chaiff unrhyw wirfoddolwr ei adael ar ei ben/phen ei hun gyda phlant

Casgliad

Gall Gwirfoddolwyr gyfoethogi bywyd y Cylch Meithrin i'r staff a'r plant trwy ehangu gorwelion a chynnig profiadau gwahanol sydd yn hybu datblygiad y plant.

Mabwysiadwyd :

Arwyddwyd: _____

Arwyddwyd: _____